

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 23AIN O FAWRTH 2015 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Gwennan Hughes, Elfed Williams, Barri Evans, Iona Edwards-Jones, Falmai Evans, Hywel Davies, Iwan Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jill Evans a Stan Williams.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 23ain o Chwefror 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych bod y ffyrdd canlynol wedi ei thrwsio erbyn hyn:-

1. Pen-y-groes at Dŷ Isaf ym Mhrion.
2. Graig Lwyd at Llewesog Lodge ym Mhrion.
3. Fron heibio Ffordd Fawr ym Mhrion.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sir, Joe Welch yn cadarnhau mi fydd yr 30 filltir yr awry n Pentre' Llanrhaeadr yn bodoli o 27ain o Ebrill 2015.

4. SAFLE BWS/LLOCHES BWS YN SARON.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch yn cadarnhau mi fydd Ben Wilcox Jones yn cael cyfarfod safle i gadarnhau'r lleoliad newydd i'r safle bws a'r lloches yn Saron.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £16,300.00.

B. Derbyniwyd llythyr of ddiolch gan Un Llais Cymru am dal aelodaeth 2015/16.

C. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth:-

1. Cylch Ti a Fi Prion.
2. Ysgol Pant Pastynog, Prion.

D. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 - £360.00.
2. PAYE am y charter yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 - £90.00.
3. Taliadau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 - £724.00.
4. Ysgol Bro Cinmeirch, Llan rhaeadr – rhodd - £400.00.
5. Clwb y pentan, Llanrhaeadr – rhodd - £150.00.

6. CAIS CYNLLUNIO.

Tynnu i lawr adeilad allanol ac adeiladu adeilad newydd i Ystafell Chwaraeon, Gweithdy a Modurdy yn From Ystrad, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Josh Brown o “Natural Power” yn hysbysu arddangosfa gyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys yn Nantglyn ar 31ain o Fawrth 2015 rhwng 2.00 a 8.00 p.m. ynglŷn ar Fferm Wynt Brenig.

B. Derbyniwyd gwybodaeth bod y Clerc wedi gyrru sylwadau’r Cyngor i Scottish Power (gan gopïo’r Cyngor Sir Ddinbych) ynglŷn â pheidio cynnwys y Cyngor cymuned yn yr ymgynghoriad ynglŷn ar “North Wales Wind Farms Connections”. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyngorydd Sir Joe Welch bod Cyngor Sir Ddinbych yn cael cyfle i fynegi barn ynglŷn â’r ymgynghoriad ac mi fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi sylwadau i’r Cyngor Sir ynglŷn ar bwnc.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i’r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Ffordd heibio Fferm y College, Peniel eisiau ei thrwsio.
2. Arwydd ffordd yn Brŷn Glas, Saron eisiau ei ail osod.
3. Llinell wen o flaen Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr eisiau ei ail pheintio.
4. Hwb yn ganol y ffordd yn “Scotland” yn Saron yn dal yn bodoli.
5. Pryd bydd y toriad gyntaf glaswellt y ffyrdd yn ystod y tymor.
6. Broblem carthffosydd yn Ty’r Ysgol yn Pant Pastynog.
7. Arwydd ar y groesffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion eisiau sylw.
8. Cebl BT ar y groesffordd yn 7 uchod eisiau sylw.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar gwastraff ar tir to ol i Ysgol Pant Pastynog, Prion.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Ebrill 2015 yn yr Ystafell Bwyllgor, King’s Head, Llanrhaeadr am 7.00 o’r gloch.